# ATODLEN 3

## GWEITHREDU CYNIGION STATUDOL

### **RHAN 1**

### CYFRIFOLDEB DROS WEITHREDU

*Dehongli*

1 Yn y Rhan hon o'r Atodlen hon—

(a) ystyr "cynigion" yw cynigion sydd i'w gweithredu o dan adran 55;

(b) mae cyfeiriad at awdurdod lleol mewn perthynas ag ysgol neu ysgol arfaethedig yn gyfeiriad at yr awdurdod lleol sy'n cynnal neu a fydd yn cynnal yr ysgol honno.

*Cynigion ynghylch ysgolion cymunedol neu ysgolion meithrin a gynhelir*

2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol gymunedol arfaethedig neu ysgol feithrin a gynhelir sy'n arfaethedig.

(2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 41, 42 neu 43 gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol.

*Cynigion ynghylch ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a reolir*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol wirfoddol a reolir sy'n arfaethedig.

(2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 41(2) neu 43(1)(a) gael eu gweithredu gan yr awdurdod.

(3) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 42(1)(b) neu (c) gael eu gweithredu gan yr awdurdod a chan y corff llywodraethu i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.

(4) Rhaid i gynigion a wneir o dan adran 41(2) (nas gwneir gan awdurdod lleol) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol a chan y person a wnaeth y cynigion i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.

(5) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 42(2) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.

(6) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 43(2) gael eu gweithredu gan y corff llywodraethu a chan yr awdurdod lleol.

*Cynigion ynghylch ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir*

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n arfaethedig.

(2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 42(1)(b) neu (c) gael eu gweithredu—

(a) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu mangre berthnasol i'r ysgol, gan yr awdurdod lleol, a

(b) fel arall gan yr awdurdod a'r corff llywodraethu i'r graddau y mae'r cynigion yn darparu (os ydynt) i bob un ohonynt wneud hynny.

(3) Rhaid i gynigion a wneir o dan adran 41(2) gael eu gweithredu—

(a) os yr awdurdod lleol yw'r cynigydd, gan yr awdurdod lleol, a

(b) os nad yr awdurdod lleol yw'r cynigydd—

(i) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu mangre berthnasol i'r ysgol, gan yr awdurdod lleol, a

(ii) fel arall gan y person a wnaeth y cynigion.

(4) Nid oes dim sydd yn is-baragraff (3)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu mangre berthnasol—

(a) pan fo'r ysgol newydd wirfoddol a gynorthwyir i'w sefydlu yn lle un neu ragor o ysgolion annibynnol, sefydledig neu wirfoddol sy'n rhai presennol ac sydd i'w terfynu ar neu cyn dyddiad gweithredu'r cynigion, a

(b) pan oedd y fangre honno yn rhan o fangre unrhyw un neu rai o'r ysgolion presennol ond na chafodd ei darparu gan yr awdurdod.

(5) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 42(2) gael eu gweithredu—

(a) i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu mangre berthnasol i'r ysgol, gan yr awdurdod lleol, a

(b) fel arall gan y corff llywodraethu.

(6) Ystyr "mangre berthnasol" yw—

(a) caeau chwarae, neu

(b) adeiladau sydd i ffurfio rhan o fangre'r ysgol ond nad ydynt i fod yn adeiladau ysgol.

(7) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 43(1) gael eu gweithredu gan yr awdurdod.

(8) Rhaid i gynigion a wneir gan gorff llywodraethu o dan adran 43(2) gael eu gweithredu gan y corff llywodraethu a chan yr awdurdod lleol.

*Cynigion ynghylch ysgolion arbennig cymunedol*

5 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gynigion ynghylch ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig gymunedol arfaethedig.

(2) Rhaid i gynigion a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 44 gael eu gweithredu gan yr awdurdod.

*Newid categori*

6 Os bydd ysgol yn newid categori o ysgol gymunedol ar ôl i gynigion cael eu cyhoeddi o dan adran 48 ond cyn iddynt gael eu gweithredu, rhaid i'r cynigion (i'r graddau

na chawsant eu gweithredu) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol (er gwaethaf paragraffau 3 a 4).